Cyfarfod Ysgolion Rhanddeiliaid Sector Taith - Crynodeb
Dydd Iau, 28 Medi 2023
12.30pm – 1.30pm
Cyfarfod a gynhaliwyd trwy Zoom

Rhestr Bresenoldeb	
Yn Bresennol:	Rebecca Payne, Taith (Cadeirydd) Andrea Waddington, Ysgol Gynradd y Sili Hayley Brady, Ysgol Gynradd Pencaerau Vanessa Palmer, Ysgol Pen-y-Bryn Sian Smith, Ysgol Uwchradd Llanwern Judith Rees, Ysgol Uwchradd Fitzalan Hayley Wilkinson, Ysgol Portfield Eli Wapner-Carter, Ysgol Portfield Sharon Coed y Fflint, Dolen Cymru Louise Morgan, Cyngor Sir Caerfyrddin Amanda Morgan, International Links Global (ILG) Alice Davies, Ymestyn yn Ehangach
Cyfieithydd	Iola Llwyd
Ymddiheuriadau:	
Aelodau o Gorff Gweithredu Rhaglen Taith (TPE):	Ellie Bevan Walter Brooks Claire Richardson Siôn James Bethan Williams
Cymorth Ysgrifenyddol:	Michele Convery

Eitem ar yr agenda	Eitem
1	**Croeso a chyflwyniadau**
1.1	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod ac esboniwyd iddynt, er nad grŵp gwneud penderfyniadau oedd hwn, y byddai'r trafodaethau a'r adborth o'r cyfarfodydd hyn yn llywio unrhyw gynigion a gyflwynir i ILEP Ltd. Bwrdd y Cyfarwyddwyr.
1.2	Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gefnogi cymryd cofnodion a gofynnwyd iddynt ddefnyddio'r llaw rithwir wrth eisiau cyfrannu at drafodaethau.
1.3	Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am yr opsiwn o gyfieithu ar y pryd yn y Gymraeg a rhoddwyd cyfarwyddiadau iddynt ar sut mae mynd ati i'w ddefnyddio.
2	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r camau gweithredu**
2.1	Amherthnasol
3	**Pynciau i'w trafod**
3.1	Cyflwynwyd trosolwg o bapur 'Diweddariadau Taith a Pynciau i'w Trafod', a oedd wedi cael ei ddosbarthu cyn y cyfarfod. Rhoddwyd yr adborth canlynol mewn perthynas â'r papur:
3.1a	**Cyfranogwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol:** Yn ogystal, hysbyswyd aelodau bod trafodaethau mewnol cychwynnol, er nad ydynt yn sefydlog, yn awgrymu targed lleiaf o 20%.
3.1a(i)	Gofynnwyd a oes maen prawf penodol ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.
3.1a(ii)	**Taith:** Disgyblion lle mae incwm blynyddol y cartref yn £25,000 neu'n llai. • Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd prawf modd. • Disgyblion sydd â phrofiad o ofal; • Disgyblion sydd â chyfrifoldebau gofalu; • Ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
3.1a(iii)	Awgrymwyd bod angen hyblygrwydd, gan nad yw bob amser yn bosibl gwybod, wrth wneud y cais, faint o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli fydd yn rhan o'r symudedd. Mae angen i Taith ystyried a fydd y symudedd yn mynd yn ei flaen os na chyrhaeddir y targed.
3.1a(iv)	Cynghorwyd y dylai Taith fod yn wyliadwrus ynghylch bod yn rhy hyblyg gan nad yw 20% yn ymddangos mor uchel.
3.1a(v)	Gofynnwyd a yw'r targedau'n cynnwys hyfforddiant staff.

3.1a(vi)	**Taith:** byddai angen i brosiectau staff yn unig gyfiawnhau sut y byddai'r symudedd yn effeithio ar grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar ôl dychwelyd.
3.1a(vii)	Awgrymwyd targedu cefnogaeth i geisiadau ar gyfer ysgolion penodol.
3.1b	
3.1b(i)	**Newidiadau i gyfraddau grant** Sylwyd y byddai mwy o arian i gefnogi symudedd disgyblion yn cael ei werthfawrogi, gan fod angen i godi cronfeydd eraill ddigwydd fel arfer a gall hynny rwystro teuluoedd o gefndiroedd difreintiedig.
3.1c	
3.1c(i)	**Cynaliadwyedd** Awgrymwyd gwrthbwyso yn hytrach na ffyrdd o deithio cynaliadwy, gan na ellir osgoi teithio anghynaliadwy bob amser.
4	**Diweddariadau**
4.1	Hysbyswyd yr aelodau am gyfarfodydd bob sector a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Bydd y rhain yn gyfle i ddysgu ar y cyd ac i fynd i'r afael â materion traws-sector ar y cyd. Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto, ond bydd e-bost yn cael ei anfon ar ôl i benderfyniad gael ei wneud.
4.2	Atgoffwyd yr aelodau fod galwad nesaf Llwybr 2 am geisiadau yn agor ar 5 Hydref. I gefnogi hyn, bydd cyfres o weminarau, ac mae manylion cofrestru ar gyfer y rhain yn yr adran 'Digwyddiadau' ar wefan Taith. At hyn, gellir trefnu cyfarfodydd llai i drafod syniadau posibl am brosiectau neu i ofyn cwestiynau am y llwybr.
4.3	Cynghorwyd yr Aelodau fod y recriwtio ar gyfer chwe aelod newydd o'r Bwrdd Cynghori yn dechrau ym mis Hydref a gofynnwyd iddynt rannu hyn drwy eu rhwydweithiau. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd gwybod i'r aelodau na all y darpar ymgeiswyr fod yn derbyn cyllid gan Taith.
5	**Eitemau a godwyd gan aelodau grŵp rhanddeiliaid y sector**
5.1	Awgrymwyd y gallai Taith ddefnyddio'r consortia yn fwy i ennyn diddordeb ysgolion pellach, gan fod lledaenu'n allweddol.
5.2	Amlygwyd bod y broses gwneud cais yn anodd ac nad oedd llawer ohoni wedi'i chynllunio ar gyfer ysgolion. I fynd o gwmpas hyn, mae rhai ysgolion yn defnyddio trydydd partïon i gwblhau eu ceisiadau, ond wrth wneud hyn nid ydynt yn derbyn yr holl gyllid.
5.3	Amlygwyd pwysigrwydd partneriaid tramor a gwneud defnydd o gydberthnasau presennol.
6	**Dyddiad y cyfarfod nesaf**
6.1	Cyfarfod nesaf 4 Rhagfyr 2023